

## Oedfaon a Digwyddiadau'r Fro dros yr haf

### OEDFA'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

yn y Pafiliwn am 9.30 o dan arweiniad y Parch Wayne Roberts.  
Caeir y drysau am 9.00. (Mynediad trwy docyn.)

### OEDFA ARBENNIG I'R FRO AC I GYMRU GYFAN

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 5.00.  
Edrychwn ymlaen i groesawu yr Archdderwydd  
Dr Christine James a'i gŵr, Dr E. Wyn James i'n plith,  
a hefyd pobl o bob cwr o Gymru.

Dydd Sul,  
Awst 4

Dydd Sul, Awst 11	• Bydd y Parch Meirion Morris yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00, yn <b>Llanefydd</b> am 2.00 ac yng <b>Nghefn Meiriadog</b> am 6.00.
Dydd Sul, Awst 18	• Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00, ac yng <b>Nghefn Berain</b> am 2.00.
Dydd Mercher, Awst 21	• <b>Adnabod Cymdeithasol</b> – Taith gerdded hamddenol. Cyfarfod yn y maes parcio ger y bont yn Llanfair Talhaiarn am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, ffoniwch Mair (870632/07900 627536) i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb.
Dydd Sul, Awst 25	• Bydd y Parch Jim Clarke yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00, yn <b>Henllan</b> am 2.00, ac yng <b>Nghefn Meiriadog</b> am 6.00. • Bydd y Parch John Pritchard yn arwain oedfa yn <b>Llanefydd</b> am 6.00.
Dydd Sul, Medi 1	• Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00 ac yn <b>Nhanyfron</b> am 2.00. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn ail-ddechrau yn Llansannan. • Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn <b>Llanfair</b> am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. • Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng <b>Nghefn Berain</b> am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 10.00. • Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn <b>Groes</b> am 10.00 ac yn <b>Henllan</b> am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. • Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn <b>Saron</b> am 10.00 a bydd y Parch Trefor Lewis yn arwain oedfa ym <b>Mheniel</b> am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### \*\* Sylwer \*\*

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 1af, ond **os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair (07900 627536)**. Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled **erbyn Awst 28ain** i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21<sup>ain</sup> Gorffennaf 2013

### Darlleniad y Dydd

Ioan 17:1–4

(BCND tud.122 / BCN: tud.112)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Gweddi. Dyma'r ffordd i gadw cysylltiad hefo Duw. Ond hefyd, dyma'r ffordd i eiriol dros ein gilydd. Gweddi dros rhywun arall, gweddi hefo nhw. Yn y rhan yma o'r Beibl cawn hanes Crist yn eiriol dros ei ddisgyblion a phawb arall sy'n dod i gredu ynddo trwy eu geiriau nhw. Drosom ni felly. Iesu'n gweddi drosom – mae'r gwirionedd yma'n syndod ond yn wefreiddiol!

Wrth i ni fynd i mewn i gyfnod y Sioeau a'r Eisteddfod a ydym yn gweddi dros Gymru a'i dyfodol? Yn y Sioe Frenhinol a'r rhai lleol fe fydd gorau Cymru i'w gweld – arddangos y gorau ydi pwrpas mawr Sioeau ac felly hefo'r Eisteddfod. Y gorau sy'n dod i'r llwyfan a byddwn yn dotio at ddawn ac at orau dawn.

Ar ddechrau'r weddi yma gan Iesu y mae'n gofyn i'w Dad ei ogoneddu. Mewn ffordd y mae'n gofyn i'w Dad nefol ei ddangos o, Iesu, fel yr un gorau yn y byd! Yn wahanol i ogoniant Eisteddfod neu Sioe sydd dros dro yn unig, mae gogoniant Iesu yn dragwyddol. Ond pam fod Iesu'n gofyn am hyn tybed? O ddarllen ymlaen gwelwn fod Crist yn eiriol dros ei ddisgyblion – a ni sydd yn dod ar eu holau – oherwydd eu bod nhw (a ni) yn mynd i barhau i fyw yn y byd a bod y byd yn lle dyrys i fyw ynddo. Byd yn llawn gorthrwm a gofidiau. Fe fydd angen help ar y disgyblion ymhob oes.

Beth ydi'r ffordd orau sydd gan Dduw i'n helpu ni? Be sy'n cael y wobwr gyntaf gan Dduw? Beth sy'n mynd i blesio'r beirniad?

O holl weithredoedd y byd dyma'r hyn sy'n cael y wobwr gyntaf gan Dduw sef yr hyn ydi, a'r hyn a wnaeth ei Fab, Iesu. Does dim byd arall yn cymharu hefo Iesu na'i aberth trosom! Yng ngolwg Duw – dyma'r hyn sy'n deilwng o'r wobwr gyntaf a'r unig wobwr mewn gwirionedd. Bywyd Iesu a'i ufudd-dod perffaith, ei farwolaeth yn ein lle, yr iawn a dalwyd trosom. Dyma mae Iesu yn ei feddwl wrth ofyn am gael ei ogoneddu – am gael ei wneud, ie, trwy ddiodeffaint a marwolaeth yn dywysog iachawdwriaeth ei bobl ac yn Waredwr.

Fe fydd llawer yn aberthu amser, egni a'u pres i ddod yn gyntaf yn yr Eisteddfod neu'r Sioe. Ond dydi hyn yn ddim i'r hyn a aberthodd Iesu i fedru dod yn gyntaf gerbron Duw yn y gwaith o'n hachub ni. Teilwng yn wir yw yr Oen i dderbyn gogoniant, anrhydedd a mawl! Addolwn Ef felly heddiw, a bendith ar oedfaon y dydd.

“Tros Gymru'n gwlad, O Dad dyrchafwn gri ...

A'r heniaith fwyn ... yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen!”

*Aneurin*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Aneurin yn pregethu.
- Iau **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Gorff.30ain **Cyflwyniad syml i Gristnogaeth** – y sesiwn nesaf yn Llansannan am 7.30 i'r rhai 15+ sy'n ystyried dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Awst 13eg Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.

### Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Trebor Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Awst zil Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!

### Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cofion heddiw at Maldwyn Jones (Cefn Berain) sy'n parhau'n yr Inffirmari ac at bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd. Cyflwynwn hwy i ofal Duw gan ofyn iddo warchod drostynt. Hyderwn y byddant oll yn profi nerth a chynhaliaeth yr Arglwydd yn fwy na digon iddynt y dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr R. J. Davies (Amber House); a Mrs Morfydd Williams (Southern House). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Aled a Dilys Roberts (Henllan) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol ddydd Gwener diwethaf, ac i John a Gwenfyl Jones (Llansannan) fydd yn dathlu eu priodas aur ar Awst 24ain.

### I ddod (ym mis Medi)

- **ADNABOD ADDOLI** yn Festri Llansannan nos Fercher, Medi 4ydd.
- **O GAPEL I GAPEL GYNT** – 14 milltir ar 14 Medi. Taith gerdded efo Rhys Dafis o gwmpas cyn gapeli ardal Llansannan: Horeb, Bryn Seion, Nantwnen, Glanrhyd, Penycefn, Hebron a Tanyfron. Tro efo ychydig o her, tipyn o hanes, a llawer o fwynhad. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** bore Sul, Medi 15fed i groesawu 18 o gyfeillion o'r India, y rhan fwyaf ohonynt yn weinidogion. Bydd yr oedfa yn cychwyn am 10.30 a bydd yr ymwelwyr yn aros i gael cinio hefo ni. Gwahodddwn bawb i ddod â chinio hefo nhw fel y cawn amser i gymdeithasu ac i fwynhau cwmniaeth yn dilyn yr oedfa.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 28ain-29ain yn y Bala. Cyfle i gyfarfod â hen ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd ac i fwynhau addoliad a dysgeidiaeth yng nghwmni Rhun Murphy. Bydd hefyd weithgareddau ar gyfer y plant a'r ieuencid. Bydd angen dychwelyd y ffurflen archebu lle ynghyd â blaendal o £20 i Goleg y Bala erbyn Medi 13eg. (Prisiau i'w cael gan Mair.)